

# Gweithiwr Cymdeithasol - Sefydlogrwydd a Llwybrau

## Cyflog: Newydd Gymhwyso £33,024 - £35,745
## Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) £36,648 - £39,186
## Swyddfeydd y Sir, Y Fflint a Gweithio’n Hyblyg

Mae ein Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau yn darparu cymorth uniongyrchol i’n plant sy’n derbyn gofal a’n pobl ifanc sy’n gadael gofal.

Rhaid i chi fod yn ymarferydd cadarn gyda’r gallu i ddarparu amrywiaeth o ymyriadau o ansawdd uchel a meithrin perthnasau gyda’n plant sy’n derbyn gofal.
Er mwyn cyflawni'r swydd, rhaid i chi fod â gwybodaeth effeithiol am arferion cyfredol a disgwyliadau’r gwasanaethau cymdeithasol o ran sgiliau cyfreithiol ac ymarferol cymhwysol.

Gan gydweithio ag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae’r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o’r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae’r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos tystiolaeth o angerdd a phenderfyniad i helpu ein plant sy’n derbyn gofal.

Rhaid i’r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru a, gan fod y swydd hon yn arwain at gyswllt sylweddol gyda phlant ac/neu oedolion diamddiffyn, bydd rhaid iddo/iddi hefyd gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Beverley Ikin, Rheolwr y Tîm: Beverley.Ikin@flintshire.gov.uk neu Peter Robson, Rheolwr y Gwasanaeth: Peter.Robson@flintshire.gov.uk Os ydych chi’n Fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol yn eich blwyddyn olaf o ymarfer gyda diddordeb mewn swydd gyda Sir y Fflint, cysylltwch â Peter Robson: Peter.Robson@flintshire.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael. Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn Ddymunol a rhaid i’r ymgeisydd llwyddiannus fod â thrwydded yrru lawn.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. Byddwn hefyd yn helpu gweithwyr newydd a’r rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy’n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio’n rhan-amser, gweithio’n hyblyg, a rhannu swydd yn cael eu hystyried.

Gyda’n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council